**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 5 Mehefin 2019

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Awdur yr Adroddiad:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Teitl:** Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion ym mis Mehefin 2018.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau i Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol. Rhoddodd yr adroddiad archwilio 'Sicrwydd Isel', felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion yn cael sylw. Dyma'r adroddiad cynnydd cyntaf.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r cynnydd o ran mynd i'r afael â chamau gweithredu archwilio ac yn penderfynu a oes angen adroddiadau diweddaru pellach ar gynnydd gyda'r cynllun gweithredu gwella.

**4. Manylion yr adroddiad**

Mae adroddiad dilynol Archwilio Mewnol (Atodiad 1) yn dangos bod y mater risg uchel yn ymwneud ag asesiadau perygl tân a dau allan o'r pedwar mater risg cymedrol wedi eu datrys yn llwyddiannus. Mae angen gwelliannau pellach er mwyn mynd i'r afael â'r ddau fater risg canolig sy'n weddill, sy'n ymwneud â datblygu system lwybro gweithredu a chynnal a chadw cofnodion cyflawn o staff yr ysgol ac ati, sydd wedi mynychu'r hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gofynnol.

Yn seiliedig ar gwmpas yr adolygiad gwreiddiol a'r gwelliannau a wnaed, rydym wedi cynyddu'r sgôr sicrwydd o isel i ganolig. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i fonitro'r camau gweithredu sy'n weddill er mwyn sicrhau y cânt eu cyflawni.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.